**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 02.06.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Ceri Griffiths, Tegid John, Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), James Maxwell (Is-Gadeirydd), Rhian Corps, Edwina Evans, Wendy Williams, Gordon Howie, Mark Lewis, Simon Turner, Reg Chapman, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 12 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rhai o'r cyhoedd
Datganwyd bod y ffirgwr o'r holl daliadau yn cofnodion o'r cyfafod ar y 27ain o Ionawr 2025 yn anghywir, eisiau gwybod pam bod Un Llais Cymru I lawr ddwy waith a beth oedd y £4,000 wedi ei glustnodi. Datganwyd byddant yn edrych I mewn I'r materion hyn.
Yn gofyn pwy oedd yn gyfrifol am wefan y Cyngor ag hefyd pam ei bod yn datgan bod y cofnodion yn mynd yn nol I 2018 ag ddim yn mynd yn nol ddim ond I 2024. Cafwyd wybod mae yr Is-Gadeirydd, y Cyng. James Maxwel ar Clerc oedd yn gyfrifol am wefan y Cyngor.
Derbyniwyd cwyn ynglyn a cyflwr y toiledau ger maes parcio Min y Don ag fe gytunwyd I ofyn I Gyngor Gwynedd I ail agor y ciwbicls oedd wedi eu cau.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**

Datganodd y Cadeirydd bod rhai materion ar yr agenda yn cael eu symud o gwmpas heno, 'roedd hefyd wedi bod mewn cysylltiad ag Un Llais Cymru ynglyn a gwahanol faterion a wedi gofyn am gyngor ganddynt ynglyn a trosglwyddo asedau a bod hyn yn drafodaeth oedd yn dal ymlaen.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 12ed 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Datganodd y Clerc ynglyn ar pris am dynnu lawr y ffens oedd wedi malu ar hyd yr A496 'roedd wedi cysylltu a Mr. Meirion Evans aro l y cyfarfod diwethaf I adael iddo wybod bod Aelodau y Cyngor ddim yn derbyn ei bris o £700 ag 'roedd wedi dod yn nol gyda pris o £450 I dynnu y pyst pren yn unig a ddim tynnu y concrid. Fe gafodd y pris hwn ei dderbyn gan mwyafrif o Aelodau y Cyngor.

**DATGAN BUDDIANT**

Nid oedd neb yn datgan buddiant ar unrhyw fater

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael cwynion bod y gwaith ar y datblygiad tai yn effeithio ar rhai o'r tai yn ystad Ty Canol ag 'roedd wedi cysylltu gyda Cadeirydd Grwp Cynefin ynlgyn a hyn a wedi cael addewid y byddai yn edrych i mewn i'r mater. 'Roedd wedi derbyn e-bost gan Gyngor Gwynedd yn datgan bod gwaith uwchraddio yn cael ei wneud ar yr amlosgfeydd yn Amlosgfa Bangor a bod hyn yn golygu o hyn ymlaen tan mis Rhagfyr 2025 ddim ond 4 gwasanaeth fydd yn cael ei gynnal y diwrnod a ni fydd gwasanaethau yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn. Ynglyn ar gwaith sydd yn cael ei gario allan i uwchraddio ceblau trydan ardal Porthmadog-Maentwrog bydd goleuadau traffic ar ffordd osgoi Porthmadog o'r 6ed o Fai tan y 18ed o Orffennaf a wedyn bydd egwyl dros wyliau'r haf, mae gwaith wedi ail gychwyn ym Mhont Briwet heddiw, mae'r darn ffordd rhwng cylchfan Minffordd a thrwy Penrhyndeudraeth yn cychwyn ganol y mis hwn ag yn parhau tan y 18ed o Orffennaf a bydd y ffordd o Landecwyn i Faentwrog yn cael ei chau ar y 18ed o'r mis hwn hyd at mis Rhagfyr 2025. 'Roedd wedi trishau o glywed am farwolaeth y Cyng. Rob Triggs, Bermo dros y penwythnos a bydd hyn yn golled mawr i Bermo ar gymuned o gwmpas a mae cydymdeimlad yn mynd i'w deulu.

**MATERION YN CODI**

**Datganodd y Cadeirydd oherwydd bod dipyn o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol heno ddim ond i drafod y mater isod i ddod ar eitem yma ymlaen i'r mater cyntaf ar yr agenda.**

**HAL**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Mark Lewis ynglyn a'r sefyllfa diweddaraf ynglyn a HAL

Nid yw yr un opsiwn cymunedol wedi profi ei hun yn gyfrifoldeb ariannol hyd yma. Rydym yn ymchwilio nawr i drydydd opsiwn o westy a allai ddod â chyflogaeth sylweddol, twristiaeth a chyfleusterau hamdden y gall y gymuned eu defnyddio. Cyfarfu y Cyng. Gwynfor Owen a chynrychiolwyr Cyngor Cymuned Harlech, HAL, Cyngor Gwynedd, a Chlwb Golff Brenhinol Dewi Sant â chynrychiolwyr o'r opsiwn gwesty newydd yn ganol Mai. Nid ydym am rannu manylion eto oherwydd ei fod yn gynnar iawn ac y gallai cyhoeddusrwydd ar hyn o bryd niweidio ein siawns o lwyddiant. Os bydd yr opsiwn hwn yn gweithio, bydd yn diwallu ystod eang o anghenion y gymuned ac yn gyffro mawr i'r dref. Rydym yn parhau i fod yn agored i dystiolaeth newydd o unrhyw opsiwn cymunedol tra ein bod yn parhau i ymchwilio'r trydydd opsiwn. Mae bwrdd HAL wedi penderfynu cau'r cwmni a chynnig y safle i Gyngor Cymuned Harlech. Yn anffodus, ni allwyd sicrhau gwerthusiad mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae hynny wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin y 3ydd. Rydym yn cynllunio paratoi'r cytundeb trosglwyddo y mis yma, darparu asesiad risg, opsiynau yswiriant, a rhoi'r trosglwyddo asedau i bleidlais ffurfiol yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Harlech ym mis Gorffennaf. Os bydd yn cael ei gymeradwyo, byddwn yn arwyddo'r cytundeb a chwblhau HAL mor gyflym â phosibl.

**Cytunwyd i atal Rheolau Sefydlog y Cyngor pan oedd y mater hwn yn cael ei drafod er mwyn cael rhoid cyfle i aelodau y cyhoedd i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.**

Datganodd y Cadeirydd y byddai yn cydnabod derbyn cwyn ynglyn ar uchod ag ei fod ar hyn o bryd yn edrych drwyddo ag y byddai yn dod ag adroddiad yn nol i'r Cyngor yn y dyfodol.

**Cafodd Rheolau Sefydlog y Cyngor eu ailsefydlu**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £10,512.51 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £20,883.74 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**Gwefan y Cyngor**

Adroddwyd bod gwefan y Cyngor yn cael ei datblygu yn raddol ag hefyd cafwyd wybod bod gan y Clerc gyfeiriad e-bost newydd sef Enquiriescyngorharlech@outlook.com. Cytunwyd i rhoi linc dudalen gweplyfr y Cyngor ar wefan y Cyngor.

**Tir Penygraig**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ateb ynghyd a phris gan gwmni Datrys o Gaernarfon I gario y gwaith syrfeio allan. Cytunwyd I dderbyn y pris hwn.

**Cwblhau Manada Newydd**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod angen adolygu yr uchod a cwblhau un newydd oherwydd bod y mwyafrif o enwau oedd ar yr un presennol ddim ar y Cyngor rhagor. Oherwydd bod ddim digon o amser i drafod y mater heno, bod y mater yn cael ei symud i agenda mis Gorffennaf.

**Cyrsiau Hyfforddiant I Aelodau ar Clerc**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Un Llais Cymru yn amlinellau y cyrsiau hyfforddiant oedd ar gael rhwng mis Ebrill a Mehefin ag ei bod wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Oherwydd bod ddim digon o amser i drafod y mater heno, bod y mater yn cael ei symud i agenda mis Gorffennaf.

**Aelodaeth Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol**

Adroddodd y Clerc bod y Cyngor bellach ddim yn aelodau o'r Gymdeithas uchod a bod ymuno ar Gymdeithas yn mynd i fod yn gost o £80 y flwyddyn. Cytunwyd i ymaelodi gyda'r Gymdeithas hon.

**Adroddiad Blynyddol y Cyngor**

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi llunio ei gyflwyniad ei hun ar gychwyn yr adroddiad hon a cytunwyd gan bawb ei derbyn. Hefyd adroddodd y Clerc ei bod wedi cynnwys cyfeiriad e-bost newydd y Clerc yn yr adroddiad hon.

**Cyfarfod Un Llais Cymru – Dolgellau 14.5.25**

Oherwydd bod ddim digon o amser i drafod y mater heno, bod y mater yn cael ei symud i agenda mis Gorffennaf.

**Cae Chwarae Brenin Sior**

Oherwydd bod ddim digon o amser i drafod y mater heno, bod y mater yn cael ei symud i agenda mis Gorffennaf. Gofynnodd y Cyng. Reg Chapman a fyddai yn bosib i adolygu y manylion o'r uchod ar wefan y Comisiwn Elusenol.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £15,159.79 yn y cyfrif rhedegol a £114,344.85 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

Mr. G. J. Williams - £202.00 - torri gwair cae chwarae Brenin Sior
Mrs Annwen Hughes - £499.00 - ad-daliad archebu gliniadur newydd i'r Clerc

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Edwina Evans a wnaeth y Cyng. James Maxwell gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Groundwork Uk - £500.00 – grant i'r ardd gymunedol
Ms Laura Sanderson - £40.00 – rhent rhandir rhif 4
Mr. Lee Warwick - £60.00 - rhent rhandir rhif 13 a 14

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – £165.00 - gwasanaeth cyfieithu

Fe adroddodd y Trysorydd bod yr Archwiliad Mewnol wedi cael ei gwblhau a bod dim materion arwyddocaol yn codi heblaw am am y materion isod -
Methiant i osod cyllideb cytbwys
Methiant i adolygu y Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog ar sail blynyddol
Methiant i adolygu cyfraddau treuliau staff

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi cwblhau'r Ffurflen Flynyddol hyd at y 31ain o Fawrth 2025, aeth yr Aelodau drwy'r ffurflen hon a chytunwyd i'w chymeradwyo a chytunwyd hefyd i'r Cadeirydd a'r Clerc/Trysorydd lofnodi hyn ar ran y Cyngor.

**GOHEBIAETH**

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd rhan o ffordd uchaf ger Hafod y Bryn, Harlech yn cael ei chau ar y 2il o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith ar ran Scottish Power.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd rhan o ffordd uchaf ger Yr Hen Ysgol, Harlech yn cael ei chau ar y 9ed o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith ar ran Dwr Cymru.

**Sian Gwenllian AS**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn diolch i'r Cyngor am gefnogi ei hymgyrch i sefydlu Ysgol Deintyddol yn Bangor.

**ARWYDDWYD............................................**Cadeirydd
**DYDDIAD...................................................**